# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-18-08)

**Dyddiad: 25 Medi 2008**
**Amser: 9:00 - 11:15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

**Virginia Hawkins, Clerc**
**Meriel Singleton, Dirprwy Glerc**

### Eraill yn Bresennol

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies, Rhodri Glyn Thomas a Karen Sinclair. Diolchodd y Cadeirydd i Alun Ffred Jones am ei waith ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig.

### Eitem 2: Cynnig i Ethol Aelod Newydd o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

2.1 Cynigiodd y Cadeirydd bod Rhodri Glyn Thomas yn cael ei ethol i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Cytunwyd ar hyn.

### Eitem 3: Ystyried deiseb sy'n galw am Waharddiad ar Fagiau Plastig SC(3)-18-08 (p1)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Mike Barry a Tony Hawkhead i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i wneud sylwadau agoriadol mewn perthynas â chynllun codi tâl am fagiau plastig Marks and Spencer / Groundwork. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

### Eitem 4: Ystyried y ffordd ymlaen o ran y ddeiseb sy'n galw am waharddiad ar fagiau plastig SC(3)-18-08 (p2)

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a oedd yn amlinellu rhai opsiynau posibl ar gyfer y ffordd ymlaen o ran y ddeiseb sy'n galw am waharddiad ar fagiau plastig.

4.2 Cytunodd y pwyllgor i gau'r ddeiseb gan fod y trafodaethau wedi mynd y tu hwnt i gwmpas cychwynnol y ddeiseb. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau i roi gwybod iddi am y penderfyniad.

4.3 Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff ac i sefydlu beth yw sefyllfa'r llywodraeth o ran defnyddio cymal 75 yn y Mesur Newid yn yr Hinsawdd (pwerau i roi ardoll ar fagiau untro).

4.4 Cytunodd y pwyllgor i gynhyrchu adroddiad gydag argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar y dystiolaeth yr oedd wedi'i gasglu. Yn dilyn ymateb y Gweinidog i'r adroddiad, cytunodd y pwyllgor i ofyn am ddadl ar y mater yn y Cyfarfod Llawn.

4.5 Cytunodd y Cadeirydd hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU i ofyn am ddiffiniad o'r hyn a olygir gan fag untro.

### Eitem 5: Ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon: Sesiwn Dystiolaeth ar Gynhyrchu Ynni SC(3)-18-08 (p3) (p4)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Tim Rotheray a Philip Wolfe i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i wneud sylwadau agoriadol mewn perthynas â Lleihau Allyriadau Carbon wrth Gynhyrchu Ynni. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

5.2 Cytunodd Philip Wolfe i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar gynllun 'morgais gwyrdd' a gafodd ei dreialu gan Gyngor Metropolitan Kirklees.

**Eitem 6: Papurau i'w Nodi**
**SC(3)-18-08 (p5) (p6) (p7) (p8) (p9)**

6.1 Nododd y pwyllgor y papurau.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ymateb y Gweinidog i'w adroddiad ar dlodi tanwydd.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd y cwmnïau ynni yn ôl i roi rhagor o dystiolaeth ar dlodi tanwydd.